# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**(Via Microsoft Teams)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 12 Hydref 2023** |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.Jenkins** |
| **Cynghorwyr:** | A.J.Richards, O.S.Davies, P.D.Richards, S.Grimshaw, R.Mizen a/ac W.Carpenter |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Mulligan, H.Jones, A.O'Donnell, L.McAndrew, C.Furlow-Harris a/ac S.McCluskie |
| **Cynrychioli Swyddfa Archwillio Cymru:** | N.Jenkins, J.Brown ac A.Lewis |
| **Aelod Lleyg sy'n Pleidleisio:** | A.Bagley, M. Owen |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **ARCHWILIO CYMRU - RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN CH1**

   Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd. Aeth yr Aelodau ymlaen i ofyn am eglurder ynghylch y pwynt canlynol:

- Gwybodaeth am statws chwarterol ac adroddiadau sydd ar ddod. Dyddiadau cwblhau ac a ydy'r rhain wedi cael eu cyflawni.
- Diweddariad Estyn
- Cwmpas Astudiaeth Ffoaduriaid o Wcráin

Darparodd Swyddfa Archwilio Cymru ddiweddariad i nifer o adroddiadau. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, roedd yr adroddiad o'u blaenau heddiw yn ymwneud â'r chwarter cyntaf, mis Ebrill 2023 i fis Mehefin 2023, a disgwylir chwarter dau, mis Medi 2023 i fis Rhagfyr 2023, yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dywedodd swyddogion fod yr archwiliad Cyfrifon ar gyfer 2022-2023 bron â chael ei gwblhau, gan gynnwys ISA 260, y gall Aelodau ddisgwyl ei weld yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r archwiliad perfformiad ar gyfer 21 - 22 hefyd bron â chael ei gwblhau a dylai aelodau gallu gweld yr adroddiad cyn Nadolig 2023. Mae nifer o adroddiadau wedi cael eu cymeradwyo'n ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru gan gynnwys yr adolygiad Thematig Digidol, a'r adolygiad craffu. Mae disgwyl i'r Aelodau weld pob adroddiad dros y misoedd nesaf.

O dudalennau 22 ymlaen mae'r astudiaethau cenedlaethol sydd i'w gweld ym mhecyn yr agenda a ddosbarthwyd.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru'n gallu cadarnhau diweddariadau sy'n ymwneud ag Estyn a AGC a gellid eu gweld ar dudalen 24 o'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd, sy'n amlinellu unrhyw ddiweddariadau o'r chwarter cyntaf, o 1 Ebrill 2023 ymlaen, a hyd at ac yn cynnwys 30 Mehefin 2023.
Bydd diweddariadau ynghylch chwarter 2, 1 Gorffennaf 2023 hyd at 30 Medi 2023, yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a drefnwyd.

Cyfeiriodd yr aelodau at y tabl o adroddiadau a oedd ar y gweill, yn enwedig ynghylch ffoaduriaid o Wcráin. Gallwch ddod o hyd iddo ar dudalen 29 o'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd. Holodd yr Aelodau a oedd yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth hwn yn unig, a faint o gyllid a dderbyniwyd. A gafodd yr arian ei ddefnyddio o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, ac os felly, faint o'r arian a wariwyd ar lety awdurdodau lleol a llety preifat.

Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, yn anffodus, nad oedden nhw'n gallu darparu ateb i'r cwestiwn yn ystod y cyfarfod ond y bydden nhw'n anfon gwybodaeth am gwmpas Astudiaeth Ffoaduriaid o Wcráin at y Pwyllgor ar ôl y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd i'r wybodaeth gael ei dosbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai diweddariad o'r cymhorthdal budd-daliadau tai rhannol gyflawn a'r effeithiau ariannol i'r awdurdod yn cael eu darparu yn dilyn y cyfarfod.

Llwyddodd Swyddfa Archwilio Cymru i gadarnhau ymhellach statws adroddiad thematig Llamu Ymlaen, gan hysbysu aelodau o chwarter tri ymlaen y byddai pob cyngor ledled Cymru yn derbyn yr adroddiadau thematig ar gyfer eu cynghorau, ac nad oedd yr oedi yn ymwneud â Chyngor CNPT yn unig. Mae gwaith thematig Cynaliadwyedd Ariannol 2023-24 ynghyd â'r gwaith thematig Comisiynu a Rheoli Contractau ill dau yn cael eu hystyried fel y cynlluniwyd.

Aeth yr aelodau ymlaen i holi am bennu dyddiadau cau cyffredinol, gyda Swyddfa Archwilio Cymru'n cadarnhau bod dyddiadau fel arfer yn cael eu penderfynu bob blwyddyn, gyda rhai yn dibynnu ar eu statws statudol. Mae materion adnoddau a gafwyd ers y pandemig wedi golygu bod y terfynau amser wedi cael eu hymestyn, ond bod adnoddau bellach wedi derbyn sylw ac mae cynnydd bellach yn cael ei wneud yn gyflym i gwblhau gweddill gwaith 21-22 a 22-23 ac y bydd y Pwyllgor yn gweld llawer o adroddiadau archwilio dros y misoedd nesaf a fydd yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr ag ymatebion sefydliadol y cyngor.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 5. <u>ARCHWILIO CYMRU - GOSOD AMCANION LLES</u>

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y canlynol a gwnaethant gais am eglurder ynghylch y canlynol:

- Nad yw aelodau'n deall yr acronymau a byrfoddau a nodir mewn adroddiadau.
- Eglurhad pellach ar y defnydd o BI, a'i derminoleg lawn.

Aeth SAC ymlaen i ddarparu trosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn enwedig canfyddiadau'r gwaith a wnaed. Rhaglenni gwaith parhaus lle mae'n rhaid i'r archwilydd cyffredinol asesu i ba raddau y mae cyrff wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y cwestiwn sylfaenol yr oedd yr adolygiad yn ceisio ei ateb oedd sut y mae'r cyngor wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles newydd.

Tynnwyd sylw'r aelodau at atodiad 1 yr adroddiad, sy'n nodi dangosyddion cadarnhaol sy'n dangos beth yw amcanion lles da i'r awdurdod wrth iddynt benderfynu ar amcanion lles sefydledig. Ni adolygwyd pob dangosydd yn y broses.

Yn gyffredinol, nodir y casgliad ar dudalen 44 yr adroddiad, lle canfuwyd bod y cyngor wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi ymgysylltu'n helaeth wrth benderfynu ar ei amcanion Lles ond bydd angen datblygu ei drefniadau monitro ymhellach. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai angen rhoi datblygiadau pellach mewn perthynas â threfniadau monitro ar waith. Dyma enghreifftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o'r canfyddiadau i ddangos y canlyniad cadarnhaol:

- dealltwriaeth o dueddiadau ac anghenion y dyfodol a'r statws tymor hwy fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol, a ystyriwyd yn ymarfer defnyddiol. Ystyriwyd bod ymgysylltu â phartneriaid, sefydliadau mewnol ac allanol etc yn effeithiol ac roedd wedi cynorthwyo wrth lunio'r amcanion lles.
- Y trydydd canlyniad cadarnhaol a nodwyd, oedd bod gan bob amcan lles ei arweinydd cyfrifol ei hun, dan arweiniad Cyfarwyddwyr unigol. Tynnwyd sylw hefyd at themâu trawsbynciol a phwysigrwydd y rhain.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod sawl maes gwella gan gynnwys:

- Mae rhagor o waith i'w wneud i ddeall yn llawn sut a phryd y bydd partneriaid y cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei Amcanion Lles ac i fynegi hyn yn glir mewn cynlluniau adfer gwasanaethau.
- Dylai'r cyngor ddatblygu dealltwriaeth gliriach o ran sut y mae'n defnyddio'i adnoddau i gyflawni ei Amcanion Lles. Bydd gwneud hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng ei ddyraniad adnoddau a chyflawni ei flaenoriaethau.
- Mae angen datblygu'r trefniadau ar gyfer monitro'r broses o ddarparu Amcanion Lles ymhellach. Yn enwedig o ran sicrhau bod y gyfres bresennol o fesurau'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau gan y

bydd hyn yn ei helpu i wella sut mae ei fesurau'n gwneud cynnydd ar yr Amcanion Lles trawsbynciol.

Roedd y meysydd ar gyfer gwella wedi bod yn sail i'r argymhellion a ganfuwyd ar dudalen 48 o'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i ofyn am eglurhad o'r defnydd o dalfyriad "Power BI" o fewn yr adroddiad. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru fod "Power BI" yn ddarn o feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddelweddu gwybodaeth perfformiad ac i gyflwyno gwybodaeth o'r fath mewn fformat amgen. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid wrth y Pwyllgor fod tîm data newydd wedi'i sefydlu o fewn yr adran gwasanaethau digidol i roi "Power BI" ar waith. Dywedwyd wrth y pwyllgor hefyd fod BI yn golygu Deallusrwydd Busnes, at ddibenion egluro. Aeth y Cadeirydd ymlaen hefyd i gyfeirio'n glir at ddehongliad gofalus a ddefnyddir mewn adroddiadau, e.e. Cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol ac yna defnyddio geiriau megis, "fodd bynnag".

Aeth swyddogion ymlaen i dwyn sylw'r pwyllgor at dudalen 56 o becyn adroddiad yr agenda ac ymateb y cyngor i'r argymhellion, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 20 Medi 2023 ac a gafodd eu cymeradwyo yn ystod y cyfarfod hwn. Gellir gweld pob ymateb ar ffurf pwynt bwled yn erbyn pob argymhelliad a amlinellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r cynllun corfforaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o 2024 ymlaen yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd gan yr awdurdod, gyda'r canlyniad i'r pedwar amcan lles yn cael eu cymryd o'r ymgyrch Parhewch i Sgwrsio. Dywedodd swyddogion y byddai hyn yn gyfle da i bartneriaid helpu a chefnogi'r cyngor i gyflawni'r amcanion. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag adolygu'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2024 ymlaen. Nodwyd cydnabyddiaeth nad oes gan fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol cyfredol fasged o fesurau canlyniadau.

Aeth yr aelodau ymlaen i longyfarch Swyddfa Archwilio Cymru ar yr adroddiad a nodwyd y canlyniadau cadarnhaol i'r cyngor.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

6. **<u>ARCHWILIO CYMRU - COFRESTR ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION RHEOLEIDDWYR</u>**

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd, rhestrwyd yr eitemau canlynol ar gyfer eglurhad, gyda sylwadau a nodwyd,

- Yn dilyn yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 28 Medi, 2023, a dderbyniwyd unrhyw sylwadau?
- Ai CNPT oedd yr unig Gyngor i beidio â derbyn adroddiad 'Llamu Ymlaen' o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.
- Cadarnhad o'r talfyriad MTFS.

Aeth swyddogion ymlaen i ddarparu trosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd diweddariadau o'r pedwar adroddiad rheoleiddwyr a gyflwynwyd yn ystod y chwarter ddiwethaf.
Yn dilyn y trydydd chwarter presennol, rhoddodd swyddogion wybod i'r Pwyllgor o ddau adroddiad cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru heb unrhyw argymhellion, roedd y llall yn cynnwys wyth argymhelliad. Roedd pedwar ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru ac roedd y llall ar gyfer y cyngor. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod pob un wedi cael ei drosglwyddo i swyddogion perthnasol er mwyn iddynt ymateb, gyda'r ymatebion yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cododd yr aelodau ymholiad ar dudalen 58 o'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd, sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru nad CNPT oedd yr unig gyngor i beidio â derbyn ei adroddiadau Llamu Ymlaen, roedd Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithio i gwblhau'r adroddiadau. Gellid disgwyl iddynt fod gyda'r Pwyllgor erbyn Nadolig 2023.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw argymhellion na ddylid eu rhoi ar waith ac a oedd modd rhoi sicrwydd na fyddai'r argymhellion hyn yn effeithio ar CNPT. Hefyd, gofynnodd yr aelodau am unrhyw gamau gweithredu a oedd yn ddyledus. Cadarnhaodd swyddogion y byddai sylwadau'n cael eu nodi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cododd yr aelodau ymholiad am y cyflwr ariannol o ran cefnogi darparu atebolrwydd lles yn effeithiol. Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y goblygiadau ariannol i'r cyflwr hwn. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, y byddai'r cynlluniau ariannol tymor canolig yn cael eu cyflwyno ar ddechrau'r gaeaf. Byddai'r ymgyrch Parhewch i Sgwrsio yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol ac yn cael ei ystyried o fewn y set newydd o amcanion lles.

Eto, atgoffwyd y pwyllgor i ddefnyddio acronymau'n briodol o fewn adroddiadau. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC).

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CANMOLIAETHAU A CHWYNION 2022-2023**

Rhoddodd y swyddogion drosolwg i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr eitemau canlynol:

- Faint o gwynion oedd o dan brotocol ac a oedd modd adfer yr wybodaeth hon.
- Cwynion sydd wedi'u cofrestru gyda Swyddogion yn uniongyrchol, ydyn nhw'n cael eu cofnodi o fewn y system Rheoli Perfformiad? A yw'r wybodaeth yn gywir?
- A oes unrhyw ddata tebyg o flynyddoedd blaenorol a sut mae hyn yn cael ei gasglu?
- A oes unrhyw sylwadau am yr adroddiad yn dilyn cyfarfod Bwrdd y Cabinet? Os felly, beth oedd y sylwadau, ac a oedd unrhyw ymholiadau pellach?
- A oedd unrhyw argymhellion ariannol gan y Cabinet?

Aeth swyddogion ymlaen i esbonio nifer y canmoliaethau a'r cwynion a dderbyniwyd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2022 2023. Roedd cynnydd nodedig yn nifer y cwynion a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn, o 111 i 165. Cadarnhawyd 12 ohonynt. Gwelodd cwynion cam dau ostyngiad o 25 i 22 yn y flwyddyn, a chadarnhawyd tri ohonynt.
Ar nodyn cadarnhaol, bu cynnydd yn nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd, o 249 i 346.

Aeth yr aelodau ymlaen i longyfarch y cynnydd yn nifer y canmoliaethau a gyflawnwyd, ond mynegwyd pryder hefyd ynghylch nifer y cwynion a dderbyniwyd nad oeddent o reidrwydd wedi'u nodi o fewn y system. Dywedodd yr aelodau bod swyddogion yn cysylltu'n uniongyrchol â chwynion ac nad oeddent yn cyrraedd drwy'r rhaglen gwynion. Codwyd eglurder ynghylch y broses o fynd i'r afael â chwynion a'r categori penodol y byddai'r cwynion penodol ynddo.

Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r pwyllgor ynghylch y gwaith ar raddfa fawr sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i'r system gwynion, yn

enwedig o ran sut y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad at y weithdrefn gwyno a sut y caiff cwynion eu cyflwyno.
Gwnaeth yr Aelodau gais i ymgorffori sut y gall cwynion a chanmoliaethau gael eu trosglwyddo i Aelodau wrth symud ymlaen. Ymatebodd swyddogion drwy ddweud y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad parhaus.

Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar yr 20 Medi cafwyd dau gwestiwn dilynol, y cyntaf oedd os nodwyd canmoliaeth yr Aelodau o fewn y system. Cadarnhaodd swyddogion fod hynny'n gywir. Yr ail oedd os oedd cwynion yn cael eu rhannu rhwng gwasanaethau a staff. Cadarnhaodd swyddogion nad oedden nhw. Gofynnodd yr Aelodau faint o brotocolau sydd gan y cyngor ar waith ar hyn o bryd. Cadarnhaodd swyddogion fod un ohonynt, a fydd yn cael ei adolygu o fewn chwe mis.

Cododd yr aelodau ymholiad ynghylch pryd roedd y tro diwethaf i'r archwiliad mewnol adolygu'r rhaglen ganmoliaeth a chwynion. Cadarnhaodd swyddogion y bydd yn cael ei gynnwys o fewn cynllun y flwyddyn nesaf, ac wedi hynny wrth symud ymlaen.
Gofynnodd yr aelodau ymhellach a aseswyd achos sylfaenol cwynion. Unwaith eto, dywedodd swyddogion y byddai'n ffurfio rhan o'r broses adolygu.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

8. **<u>MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24</u>**

Rhoddodd y swyddogion drosolwg i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Trafododd yr Aelodau yr holl wybodaeth a gwnaed cais am eglurhad o'r eitemau canlynol.

- Benthyca tymor byr o 14 miliwn o bunnoedd. Tabl sy'n ymwneud â dau swm o arian a fenthycwyd. A allai swyddogion esbonio beth oedd y symiau'n cael eu defnyddio ar eu cyfer a pham?

Aeth y Prif Swyddog Cyllid ymlaen i roi trosolwg i nifer o bwyntiau amserol a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Ar dudalen 73 o'r adroddiad, dechreuwyd benthyca tymor byr ddiwedd mis Mawrth, dechrau Ebrill 2023 oherwydd problemau llif arian dros dro.

Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod tîm arbenigol yn cael ei gyflogi i ymdrin â buddsoddiad rheolwyr ynghyd â monitro benthyca arian.

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor ar ddiwedd mis Mawrth 2023 buddsoddwyd £53 miliwn o bunnoedd mewn gwrthbleidiau gwahanol, gan greu cadernid ariannol. Cafwyd cyflwyniad hwyr o grant gan Lywodraeth Cymru a oedd yn golygu bod y cyngor yn benthyca cyllid gan awdurdodau partner. Benthycwyd cyfanswm o £14 miliwn i gyd, ar sail tymor byr.

O dudalen 74, bydd aelodau'n nodi bod buddsoddiadau o ddiwedd mis Mehefin 2023, sy'n cyfateb i ychydig dros £60 miliwn, yn rhoi cadernid ariannol i'r cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o F1, tudalen 74 o'r pecyn a ddosbarthwyd. Aeth y Prif Swyddog Cyllid ymlaen i egluro bod F1 yn ymwneud â'r meini prawf y mae'n rhaid i'r cyngor gadw atynt o ran buddsoddi arian. Am eglurhad pellach, esboniodd y Prif Swyddog Cyllid fod F1 yn cael ei grynhoi fel 'capasiti cryfaf taliad amserol o ymrwymiadau ariannol.'

Holodd Aelod Lleyg a fyddai unrhyw gosbau pe bai'r dyddiad aeddfedrwydd yn cael ei symud ymlaen. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cosb yn digwydd, ond er mwyn symud dyddiad aeddfedrwydd, byddai angen cynnal ymgynghoriad â'r holl sefydliadau dan sylw.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 9. ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARTEROL

Cyflwynodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y pwyntiau canlynol.

- Monitro perfformiad y gwasanaeth.
- Pwysau ffrydiau gwaith a phryderon ynghylch lefelau staffio presennol, o ganlyniad i lefelau salwch staff parhaus.
- Cardiau caffael a'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio.
- Cyfathrebu llafar yn hytrach nag e-bost er eglurder a chadarnhad mewn perthynas ag argymhelliad o fewn adroddiad rhif 24.

Aeth swyddogion ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r adroddiad chwarterol, gan nodi bod un ar bymtheg o adroddiadau wedi'u cyflwyno yn ystod y chwarter. Gellir dod o hyd i'r manylion yn atodiad un i'r adroddiadau a ddosbarthwyd. Er eglurder, tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith bod y sgôr sicrwydd naill ai'n sylweddol neu'n rhesymol, y ddau ohonynt yw'r ddau sgôr uchaf. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y gellir dod o hyd i wybodaeth am y categorïau sicrwydd ar dudalen 89 o'r pecyn adroddiad.

Derbyniodd cardiau caffael, o'r enw R24 o fewn y tabl, sicrwydd cyfyngedig a gyrhaeddwyd oherwydd materion a ganfuwyd gydag awdurdodi a chodio pryniannau ac nid yr hyn yr oedd y cardiau'n cael eu defnyddio i'w prynu. Gallwch ddod o hyd i ymateb gan y Prif Swyddog Cyllid ar dudalen 94, atodiad 3 i'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd.

Aeth y swyddog ymlaen i ddweud bod salwch wedi effeithio ar yr adran, gydag un aelod o'r tîm yn gadael yr awdurdod. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun archwilio yn gyfyngedig. Dywedodd swyddogion y bydden nhw'n gweithio'n agos i ddod o hyd i ffyrdd o liniaru'r effaith i'r cynllun. Mae disgwyl i gynllun diwygiedig gael ei gyflwyno i'r aelodau yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

Roedd y Rheolwr Archwilio yn gallu cadarnhau bod y swydd wag ar gyfer swydd yr Archwilydd bellach wedi cael ei hysbysebu ac ar hyn o bryd roedd yn fyw o fewn y system swyddi. Cafodd penderfyniad i ohirio'r swydd wag ei wneud gan y Rheolwr Archwilio oherwydd mae swyddi gwag tebyg ar gael mewn sefydliadau eraill. Clywodd yr aelodau bod cyfanswm o 92 o ddiwrnodau wedi'u colli oherwydd salwch, gyda dau aelod o staff yn parhau i fod yn anaddas i weithio.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y cynllun archwilio wedi'i gytuno ym mis Mawrth. Roedd un archwiliad wedi bod mewn perthynas ag adrodd ar ddamweiniau yn gorfforaethol ac roedd un arall mewn perthynas ag adrodd am ddamweiniau mewn ysgolion, a gymerodd cyfanswm o rhwng 20 a 25 o ddiwrnodau i'w cwblhau, nifer fawr o ddiwrnodau o fewn y cynllun.

Aeth y Rheolwr Archwilio ymlaen i awgrymu ateb i gael rhai o'r diwrnodau coll hynny yn ôl. Mewn perthynas â'r archwiliad ar gyfer adrodd ar ddamweiniau yn gorfforaethol, roedd hynny'n brawf ychwanegol i'w ychwanegu at bob gwasanaeth. Gofynnwyd pa

ddamweiniau sydd wedi cael eu hadrodd, os o gwbl, a cheisiwyd cadarnhad bod y polisi wedi'i ddilyn. Os na fydd unrhyw ddamweiniau wedi digwydd, gall y rheolwr ddangos eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r hyn y mae angen ei wneud pe bai damwain yn digwydd. Awgrymir yr un broses ar gyfer ysgolion mewn perthynas ag adrodd am ddamweiniau, ac ychwanegwyd prawf ychwanegol at adran iechyd a diogelwch rhaglen archwilio'r ysgol. Cytunodd y Pwyllgor ar yr ateb, er mwyn i gynllun diwygiedig gael ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Ionawr.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 10. ARCHWILIO MEWNOL - DIWEDDARIAD ASESU ALLANOL

Aeth swyddogion ymlaen i roi gwybod i'r pwyllgor am yr asesiad allanol a gynhaliwyd yn unol â Safonau Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid cynnal adolygiad bob pum mlynedd gan blaid allanol. Cynhaliwyd yr asesiad diweddaraf gan Gyngor Sir Conwy, a dyfarnodd yr Asesydd y lefel uchaf o gydymffurfiaeth sydd ar gael iddi. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r safonau a bod modd dod o hyd i'r holl fanylion yn atodiad 1 i'r adroddiad. Aeth yr aelodau ymlaen i longyfarch swyddogion ar y canlyniad a gyflawnwyd.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 11. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024.

## 12. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:**
Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraphs 12, 13 and 14 of Part 4 of Schedule 12A to the above Act.

## 13. ARCHWILIO MEWNOL - YMCHWILIADAU ARBENNIG

Rhoddodd swyddogion fanylion i'r Pwyllgor ynghylch yr holl adroddiadau preifat a gyflwynwyd mewn perthynas ag ymchwiliadau arbennig, gan gynnwys unrhyw ymchwiliadau arbennig cyfredol parhaus.

**Penderfynwyd:**
Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**CADEIRYDD**